**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1294
Ein cyf/Our ref EM/00724/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd - y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

petitions@senedd.wales

13 Ebrill 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Mawrth ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-06-1294: Peidiwch â gadael cleifion â chanser y fron metastatig yng Nghymru y tu ôl.

Cyflwynodd Rhwydwaith Canser Cymru, mewn cydweithrediad â Chymorth Canser Macmillan, bapur i'w Fwrdd ar 27 Ionawr ynglŷn â darpariaeth gwasanaethau'r GIG i bobl â chanser y fron metastatig.

Cymeradwyodd y Bwrdd ddatblygiad cyfres o lwybrau clinigol a gytunwyd yn genedlaethol i bobl â chanser metastatig, gan ddechrau â chanser y fron metastatig. Caiff y gyfres ei datblygu gan arbenigwyr clinigol o Grŵp Safle Canser y Fron o Rhwydwaith Canser Cymru er mwyn adlewyrchu'r canllawiau proffesiynol presennol ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Hon yw'r un broses a ddefnyddiwyd i ddatblygu 21 o lwybrau cenedlaethol ar gyfer canserau cychwynnol.

Rhaid cyflawni'r gwaith hwn ochr yn ochr ag ymrwymiadau presennol y Rhwydwaith Canser ac rwy'n disgwyl gweld cynnydd eleni.

Diolch am ysgrifennu ataf ynghylch y mater hwn.

Yn gywir,

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.